# CYDBWYLLGOR
# ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL
# BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

| | |
|---|---|
| **Cynhaliwyd:** | **13 Chwefror 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Steve Gadd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Paula O'Hanlon /Huw Rees** |
| **Teitl:** | **Monitro Cyllideb 2014/15 y Cydbwyllgor a Chyllideb Arfaethedig 2015/16** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â sefyllfa monitro cyllideb refeniw'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ar gyfer 2014/15 yn ogystal â'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2015/16.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw darparu diweddariad ynglŷn â sefyllfa ariannol bresennol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr aelodau'n nodi'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer eleni (Atodiad 1). Hefyd, eu bod yn cymeradwyo'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2015/16 yn ffurfiol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ar gyfer 2014/15 y manylir yn ei chylch yn Atodiad 1. Cyllideb gwariant gros yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yw £406 mil. Y sefyllfa yw bod rhagolwg o £3 mil o dan wariant.
Mae'r adroddiad hefyd yn darparu crynodeb o'r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2015/16 yn Atodiad 2, sy'n cynnig cyllideb gwariant gros o £403 mil.

Cyflwynir y gyllideb mewn dwy ran; Craidd ac Ardal. Mae'r gyllideb Graidd yn ymwneud â’r swyddogaethau hynny sy’n gyfystyr â’r lleiafswm y byddai'n ofynnol ei gael er mwyn gweithredu'r gweithgarwch yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn ystod y flwyddyn gyfredol. *Gall* y gyllideb hon amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn ddibynnol ar gyllid allanol a chyllid mewnol. Mae'r gyllideb Ardal yn ymwneud â gwariant i gyflawni prosiectau yng ngwahanol Awdurdodau Lleol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Gallai'r gyllideb hon gynnwys staff nad ydynt yn staff craidd sy'n gweithio ar brosiectau penodol o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn ystod y flwyddyn hon. *Bydd* y gyllideb hon yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn a hyd yn oed o fewn y flwyddyn yn dibynnu ar gynnydd prosiectau a ffynonellau cyllid.

**5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?**

Bydd rheoli cyllidebau refeniw’r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn effeithiol yn helpu i gyflawni blaenoriaethau'r cynllun rheoli y cytunwyd arno ar gyfer y flwyddyn gyfredol gan fod yn sail i weithgarwch ym mhob maes, yn enwedig ein perthynas â phartneriaid cyllid a'r blaenoriaethau yr ydym yn eu rhannu â hwy.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ar hyn o bryd rydym yn rhagweld y bydd y cyfraniadau incwm yn aros ar y lefel y cytunwyd arnynt yn y gyllideb ar gyfer eleni.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd o effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i’r adroddiad hwn.**

*Amh.*

**8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Dyma'r cyfle cyntaf i ymgynghori â'r Cydbwyllgor ynglŷn â chyllideb 2015/16. Cytunwyd ar gyllideb 2014/15 yng nghyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2014.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sefyllfa ariannol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ar gyfer 2014/15. Os erys y sefyllfa fel y mae, sef mymryn o dan wariant, argymhellir fod hyn yn cael ei gario drosodd i'w ddefnyddio gan y Cydbwyllgor yn 2015/16. Bydd y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2015/16 yn rhoi sicrwydd o sefydlogrwydd ariannol i’r Cydbwyllgor dros y 12 mis nesaf. Fodd bynnag, rhaid cydnabod bod cyllidebau pob corff yn y sector cyhoeddus yn dod o dan bwysau cynyddol oherwydd yr hinsawdd economaidd ac efallai na ellir dibynnu ar lefelau ariannu i’r dyfodol (gweler hefyd adran 10).

**10. Pa risgiau sydd, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r gyllideb arfaethedig yn dibynnu ar incwm gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r tri Awdurdod Lleol. Bydd unrhyw newidiadau i'r lefelau incwm hyn yn peri risg i ddarpariaeth prosiectau i'r dyfodol ac i'n gallu i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.